Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Cyllideb Ddrafft: 2025-26
## Newid Sylweddol a Gynlluniwyd

Medi 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Ddrafft: 2025-26**
# Newid Sylweddol a Gynlluniwyd

Medi 2024



# Cynnwys


1. **Cyflwyniad** .......... 6
2. **Y gyllideb** .......... 7
3. **Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig** .......... 12
4. **Staffio** .......... 14
5. **Cyllidebau nad ydynt yn rhai staff** .......... 16
6. **Diwygio'r Senedd** .......... 17
7. **Ffyrdd o Weithio** .......... 19
8. **Cronfa Prosiectau** .......... 21
9. **Cynaliadwyedd** .......... 23
10. **Ymgysylltu** .......... 24
11. **Llywodraethiant a Rheolaeth Ariannol** .......... 26
12. **Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau** .......... 27
13. **Cwmpas y gyllideb** .......... 29

**Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb** .......... 30

**Atodiad 2: Manylion y Gyllideb** .......... 32



# 1. Cyflwyniad

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Defnyddir cyllideb Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn") i sicrhau y darperir eiddo, staff a gwasanaethau i'r Senedd sy'n ofynnol at ddibenion y Senedd. Mae hefyd yn talu costau cyflogau a lwfansau'r Aelodau a'u staff fel y'u pennir gan y Bwrdd Taliadau annibynnol.

Mae gan Aelodau o'r Senedd gyfrifoldeb sylweddol. Maent yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif ac yn cytuno ar drethi yng Nghymru. Yn ei dro, mae'r Comisiwn yn darparu'r sgiliau arbenigol, y gwasanaethau cymorth a'r adnoddau i gynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu gwaith craffu, deddfu a chynrychioli.

# 2. Y gyllideb

**Cyfanswm y gyllideb ar gyfer 2025-26 yw £84.301 miliwn a bydd yn darparu ar gyfer:**

- **Gwariant sydd dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn, gan gynnwys Cronfa Prosiectau (y gyllideb weithredol);**
- **Tair cyllideb wedi'u clustnodi ar gyfer gwaith rhaglen penodol;**
  - **Gwariant sy'n ymwneud â gwaith paratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd;**
  - **Rhaglen waith Ffyrdd o Weithio.**
  - **Gwaith paratoi cyn yr etholiad.**
- **Cyllideb wedi'i chlustnodi ar gyfer addasiad i fandiau Cyflog Is sy'n destun cais Cyllideb Atodol 2024-25 ar hyn o bryd.**
- **Dibrisiant (cost nad yw'n arian parod);**
- **Y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau;**
- **Y gyllideb ar gyfer costau clercio, gweinyddol a chostau eraill i ddarparu cymorth i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol;**
- **Y gyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau; ac**
- **Y ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd dan bennawd Gwariant a Reolir yn Flynyddol Trysorlys EF (Cost Cyllid Pensiwn).**

2025-26 yw blwyddyn olaf y Chweched Senedd, sy'n golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn gyflawni gwaith ychwanegol sylweddol er mwyn sicrhau bod y Senedd a'r Comisiwn yn barod ar gyfer y Seithfed Senedd a fydd yn fwy o faint. Dyma'r flwyddyn gyntaf o gynnydd sylweddol mewn gofynion cyllidebol fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) a gyhoeddwyd ar gyfer newid Diwygio'r Senedd.

Mae'r gyllideb ar gyfer 2025-26 ar gyfer y Comisiwn yn dynn ond bydd yn sicrhau gwerth am arian ac yn cynnwys yr addasiad cyflog disgwyliedig i staff, gan fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Mae swyddogion wedi ymgysylltu â Grwpiau

Pleidiau i gasglu blaenoriaethau'r Aelodau a rhannu manylion y gyllideb, gan sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn cael eu hymgorffori yn y Gyllideb Ddrafft a gyflwynir.

Mae'r Senedd wedi gofyn i'r Comisiwn gyflawni dwy raglen fawr: Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio. Mae angen adnoddau ariannol a dynol sylweddol ar y ddwy fenter a'u nod yw ailddiffinio sut mae gwasanaethau'r Comisiwn yn cefnogi'r Senedd. Dechreuodd y gwaith hwn yn 2024-25 a bydd yn parhau yn ystod 2025-26, gyda rhaglen Diwygio'r Senedd yn cwblhau addasiadau ystadau ac ailgynllunio gwasanaethau ar gyfer y Seithfed Senedd estynedig ym mis Mai 2026 gan alluogi'r Senedd i ddychwelyd i'r Siambr ym mis Chwefror 2026 ar gyfer Cyfarfod Llawn. Bydd y ddwy raglen yn gweld cynnydd nodedig a disgwyliedig yn y gost wrth iddynt symud ymlaen i'w gweithredu yn 2025-26.

Mae 2025-26 hefyd yn flwyddyn cyn etholiad, gan ddod â chostau untro cylchol sy'n gysylltiedig â'r etholiad, a fydd yn achosi treuliau cyn ac ar ôl y diwrnod pleidleisio. Mae'r costau hyn cyn yr etholiad wedi'u clustnodi o fewn cronfa gyllidebol benodol i dalu am baratoadau a chyfathrebu angenrheidiol.

Mae'r Gyllideb Ddrafft hon hefyd yn dod â'r dyddiad ar gyfer gwneud rhywfaint o waith TGCh ac ystadau seilwaith i'r Siambr yn gynt, a fyddai fel arfer yn digwydd yn ystod y cyfnod diddymu. Mae'n gysylltiedig â gwaith strwythurol Diwygio'r Senedd a bydd yn tarfu llai ar Aelodau ac yn cynnig gwell gwerth am arian nag aros tan y diddymiad.

Mae'r gyllideb hon yn gyson â Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (MTRF) y Comisiwn, gan sefydlu egwyddorion adnoddau ac ariannol ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf. Nod y MTRF yw cyfyngu ar dwf y gellir ei reoli a rheoli twf na ellir ei reoli o fewn yr adnoddau sylfaenol presennol. Mae hefyd yn ceisio amlygu pwysau cyllidebol yn y dyfodol ac yn cynnig strategaethau ar gyfer eu rheoli.

Yn ogystal â'r gofynion newydd sy'n hysbys, mae rhywfaint o bwysau ariannol y tu hwnt i reolaeth y Comisiwn ac sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Senedd. Roedd Pwyllgorau newydd a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn yn golygu bod pwysau heb ei gyllidebu yn 2024-25, na ragwelwyd pan osodwyd y gyllideb honno. Mae natur gwaith y Pwyllgorau yn golygu y bydd angen twf dros dro yn y gyllideb staffio yn 2025-26 ond bydd yn lleihau pan fydd gwaith y Pwyllgorau wedi'i gwblhau.

Mae'r rhaglen Ffyrdd o Weithio yn cyflawni Strategaeth Ystadau'r Comisiwn a bydd yn y pen draw yn penderfynu ble bydd staff, Aelodau a'u staff cymorth y Comisiwn yn cael eu lleoli o 2032 ymlaen, pan ddaw prydles bresennol Tŷ Hywel i

ben. Mae'r Rhaglen yn cael ei chyflwyno'n gyflym i ddiwallu anghenion y Senedd yn awr ac yn y dyfodol, gan ddarparu amgylchedd gwaith hybrid. Fodd bynnag, ni ellir asesu'r amserlenni a'r amcangyfrifon cyllideb yn gywir cyn cwblhau'r broses gaffael. Felly, cyflwynir y Gyllideb Ddrafft gyda rhai cafeatau. Nod y Comisiwn yw sicrhau bod gan y rhaglen y modd ariannol i symud ymlaen o ystyried dull 2032.

Cafodd Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2024 sy'n rhoi'r sicrwydd sydd ei angen i symud ymlaen â'r gwaith i ad-drefnu'r Senedd a Thŷ Hywel. Mae maint y newid yn eithriadol o ran llwyth gwaith a gofynion adnoddau Comisiwn y Senedd. Ni all y gyllideb na'r adnoddau gweithredol presennol wasanaethu'r rhain. Mae angen sicrhau'r adnoddau presennol yn ystod y cyfnod pontio ac i'r dyfodol er mwyn parhau â darparu busnes arferol yn ogystal â darparu'r rhaglenni hyn.

Yn y cyd-destun hwn, mae creu cyllideb i'r Comisiwn sy'n darparu cyllid digonol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod wedi bod yn broses gymhleth. Mae'r cyllidebau ar gyfer y rhaglenni gwaith wedi parhau i gael eu clustnodi i helpu gyda thryloywder. Mae Comisiwn y Senedd wedi ymrwymo y bydd unrhyw gyllid nas defnyddiwyd yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r gyllideb gyffredinol yn cynrychioli cynnydd o 16.77% ar gyllideb 2024-25. Mae'r elfen sy'n ymwneud â busnes dydd i ddydd y Comisiwn (y gyllideb weithredol) wedi cynyddu 11.08% o'i gymharu â chyllideb 2024-25. Gan ystyried y costau ychwanegol RIA hysbys a ddisgwylir yn 2025-26, mae'r cynnydd hwn yng nghyfanswm y gyllideb yn 11.56% yn gyffredinol (addasir 10.80% RIA ar gyfer dyfarniadau tâl a chwyddiant).

Mae lefel y twf yn uwch nag a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol ac yn uwch nag y byddai'r Comisiwn yn dymuno ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae lefel cyflawni ar gyfer 2025-26 y mae'r Comisiwn yn gyfrifol amdano yn gynnydd sylweddol ar flwyddyn ariannol 2024-25 a blynyddoedd ariannol blaenorol. Roedd amcangyfrifon cost Asesiad Effaith Rheoleiddiol Diwygio'r Senedd (RIA), yn ôl eu natur, yn amcangyfrifon dros dro yn seiliedig ar y rhagdybiaethau lefel uchel. Ers hynny, mae'r prosiectau wedi symud drwy'r cyfnodau cynllunio, datblygu ac ymgysylltu, ac maent bellach yn y cyfnodau dylunio, caffael a gweithredu; dim ond nawr, ar ôl gweithio drwy'r camau angenrheidiol hynny, y gellir cyflwyno cyllidebau cadarnach a chostau gwirioneddol.

Ar gyfer 2025-26, y cynnydd disgwyliedig yng nghostau Diwygio'r Senedd (gan gynnwys gwaith Siambr a Thŷ Hywel) yw £4.4 miliwn. (Wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant a dyfarniadau cyflog, amcangyfrif gwreiddiol yr Asesiad Effaith

Rheoleiddiol ar gyfer 2025-26 oedd £3.37 miliwn.) Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 4.67% (wedi'i addasu 5.39%) ar 2024-25.

Mae hyn, ynghyd ag effaith barhaus dwy flynedd o chwyddiant uchel, yn enwedig yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddyfarniadau cyflog staff, cynnydd mewn cyfraniad pensiwn cyflogwyr, addasu i'r bandiau cyflog is a'r angen brys i ddal i fyny ar waith cynnal a chadw cylch bywyd ar gyfer yr ystad a TGCh yn dilyn oedi wedi dwysáu i greu'r lefel gyffredinol o dwf a brofir.

Fodd bynnag, mae'r ymrwymiad i gyfyngu ar dwf cyllidebol ar gyfer elfennau craidd y gyllideb yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan y Comisiwn i gydnabod y pwysau ar bwrs y wlad.

Mae'r gyllideb weithredol arfaethedig wedi gwneud darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog yn y gyllideb staffio o 5% yn 2025-26, i adlewyrchu datblygiadau mewn dyfarniadau cyflog ar draws sector cyhoeddus y DU. Mae rhagdybiaeth gyllidebol o 3% wedi'i wneud ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd ganlynol. Nid yw trafodaethau cyflog gydag Ochr Undebau Llafur y Comisiwn (TUS) i setlo 2024-25 ac i gytuno ar fargen gyflog aml-flwyddyn newydd ar gyfer 2025-26 ymlaen wedi'u cwblhau eto. Felly mae'r Comisiwn yn defnyddio darpariaethau yn hytrach na chyfraddau cytundeb cyflog hysbys.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi gorfod cynnwys o fewn y Gyllideb Ddrafft gyllideb 'defnyddio neu ddychwelyd' wedi'i chlustnodi sy'n cyfateb i'r swm y gofynnwyd amdano yn y cais Cyllideb Ddrafft Gyntaf a gafodd, yn anffodus, ei ohirio oherwydd etholiadau Senedd y DU. Ar adeg paratoi'r Gyllideb Ddrafft, yn dilyn trafodaethau gyda TUS, ni chytunwyd ar addasiad i'r cap y cytunwyd arno ar hyn o bryd o 3% ar gyfer staff ar gyflogau is (i setlo trafodaethau cyflog 2024-25) fel rhan o gynnig y Gyllideb Atodol. Mae lefel sylweddol o risg ariannol a gweithredol i'r Comisiwn nad yw'n gallu fforddio'r swm hwn fel cost yn ystod y flwyddyn. Mae'r anhawster hwn wedi'i gydnabod yng ngwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid, a ystyriodd y mater hwn ym mis Mai 2024 ac a oedd yn cefnogi dull gweithredu arfaethedig y Comisiwn.

Mae'r Gyllideb Ddrafft yn gwneud darpariaeth, fel arfer, ar gyfer Cronfa Prosiectau. Mae hyn ar wahân i gostau rhedeg y Comisiwn o ddydd i ddydd ac i raddau helaeth mae'n ariannu prosiectau seilwaith i gynnal yr ystad a'r systemau TGCh yn ogystal â phrosiectau eraill ar wahân na ellir eu diwallu o gyllidebau gwasanaeth, megis meddalwedd arbenigol newydd. Mae'r Gronfa Prosiectau wedi cynyddu ar gyfer 2025-26 i adlewyrchu'r cyfnod o adnewyddu cylch bywyd sylweddol o waith mawr a seilwaith.

| Disgrifiad | Cyllideb 2024-25 | Cyllideb 2025-26 | newid % o gymharu â 2024-25 (Gosodwyd) |
|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ miliwn | % |
| **Cyllideb weithredol** | £41.531 | £46.135 | 11.08% |
| **Eitemau nad ydynt yn arian parod** | £5.360 | £5.600 | 4.48% |
| **Treuliau cysylltiedig ag aelodau** | £21.708 | £22.233 | 2.42% |
| **Treuliau cyn etholiad** | £0 | £1.000 | |
| **Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio** | £3.596 | £8.878 | 146.91% |
| **Dyfarniad ôl-dâl** | £0 | £0.456 | |
| **Cyfanswm** | £72.195 | £84.301 | 16.77% |

# 3. Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

Y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (MTRF) yw'r mecanwaith a ddefnyddir gan y Comisiwn i nodi pwysau costau yn y dyfodol gan allu rhagweld digon i'w rheoli. Gallai hyn fod drwy ailgyfeirio adnoddau, newid a rheoli effeithlonrwydd neu, yn ar yr eithaf, gwneud achos cydlynol gyda thystiolaeth dros ofyn am adnoddau ychwanegol. Mae'r MTRF yn flaenolwg tair blynedd sy'n hysbysu rhanddeiliaid ac yn hwyluso cynllunio priodol. Dyma'r ail gyllideb a luniwyd o dan y fframwaith hwn.

Y rhagdybiaeth ar gyfer y tymor canolig yw y bydd gofynion ariannu'r Comisiwn yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael. Felly, mae angen i'r Comisiwn ddeall a lliniaru'r bwlch rhwng y ddau er mwyn parhau i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, gan gefnogi'r anghenion busnes craidd ar yr un pryd.

Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r Comisiwn ddangos yn glir beth sy'n sbarduno cynnydd yn ei gyllidebau (yn hytrach na chreu argraff bod llinellau cyllideb ‘busnes fel arfer’ yn cael eu tyfu'n flynyddol gan swm chwyddiant).

Mae'r Fframwaith yn cynnwys Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chynllun Gweithlu. Fframwaith cyllidebol treigl tair blynedd yw'r Cynllun Gweithlu. Mae'n nodi ystod fanwl o senarios gofynion o ran adnoddau a phwysau o ran costau dros y tair blynedd nesaf. Yna mae'n gosod sail resymol a realistig ar gyfer gwaith cynllunio cyllideb dros y tymor canolig (y ‘Senario Twf a Reolir’).

Fel egwyddor, mae ‘Sefydliad Targed’ wedi'i ddiffinio (ar gyfer y sefydliad staffio parhaol) i sicrhau bod adnoddau pobl y Comisiwn yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn o fewn yr amlen adnoddau sydd ar gael. Mae'n gweithredu fel arf rheoli costau strategol ac yn llywio'r gwaith o reoli adnoddau mewn ffordd ystwyth, effeithiol ac effeithlon. Mae ymgysylltu'n rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaeth (rheolwyr cyllideb) wedi darparu mewnbwn ac adborth strwythuredig ynghylch sut y gall y Comisiwn gyfeirio adnoddau yn briodol at anghenion sefydliadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y newid i Senedd fwy o faint ac mae'n gwrthsefyll llunio'r adnoddau presennol mewn modd llinol.

Ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon, mae'r Comisiwn yn cydnabod nad yw targed twf y flwyddyn flaenorol, y Datchwyddwr Cynnyrch Mewnladol Crynswth, yn darged realistig i'w ddefnyddio oherwydd lefel y bwlch cyllido a fyddai'n cael ei greu. Wrth ddod i'r casgliad hwn, ystyriodd y Comisiwn effaith y dyfarniad cyflog posibl sydd, fel y nodir uchod, wedi'i osod ar lefel sy'n debyg i ddyfarniadau cyflog presennol y

sector cyhoeddus ledled y DU. Nid yw maint y gostyngiad mewn gwasanaethau i Aelodau y byddai ei angen er mwyn cyflawni hyn heb gyllideb atodol, yn gynaliadwy. Yn hytrach, bydd y Comisiwn yn rheoli nifer y staff, yn cyfyngu ar y ddarpariaeth ar gyfer dyfarnu tâl hyd at uchafswm o 5% ac yn rheoli costau nad ydynt yn staff i godiadau cytundebol ac yn amsugno pwysau cost eraill lle bo hynny'n bosibl o fewn y targed chwyddiant a osodwyd ar gyfer y MTRF ar gyfer 2025-26.

# 4. Staffio

Mae'r rhan fwyaf o wariant refeniw weithredol y Comisiwn (~70%) yn ymwneud â chostau staff. Ceir ymrwymiad parhaus i ddatblygu a chynnal gweithlu amrywiol, medrus iawn i gefnogi Busnes y Senedd.

Blwyddyn ariannol 2025-26 fydd blwyddyn gyntaf y cytundeb cyflog newydd. Mae'r trafodaethau ar gyfer y cytundeb cyflog newydd yn parhau ar hyn o bryd ond dylent ddod i ben yn ystod 2024-25 a gobeithio y byddant yn gosod y sail ar gyfer y gyllideb ar gyfer y blynyddoedd canlynol (hyd at 2027-28). At ddibenion cynllunio, tybir mai'r dyfarniad cyflog uchaf fydd 5% ar gyfer 2025-26 ac yna 3% yn y ddwy flynedd ganlynol. Mae rhagdybiaeth 2025-26 yn cyd-fynd â'r dyfarniadau cyflog sy'n cael eu setlo ar hyn o bryd o fewn sector cyhoeddus ehangach y DU.

Mae costau staffio 2025-26 yn cynnwys y cynnydd i gyfraniad pensiwn cyflogwr nad yw o fewn cymhariaeth 2024-25 ac oddeutu £275,000. Yn ogystal, mae'r cyflogau sylfaenol ar gyfer graddfeydd cyflog is wedi'u haddasu ar gyfer y codiad y cytunwyd arno o £456,000. Mae'r ddau addasiad hyn yn cyfrif am 2.28% o dwf costau staff.

Cynhaliwyd nifer y staff yn y sefydliad ar gyfer busnes gweithredol arferol ar lefel 2024-25 ac eithrio ychwanegu tîm clercio a chymorth dros dro ar gyfer Pwyllgorau dros dro a sefydlwyd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cyfrif am godiad o 1.05% o gostau staff a fydd yn diflannu yn y blynyddoedd i ddod unwaith y bydd y Pwyllgor wedi cwblhau ei waith. Mae'r holl staff ychwanegol ar gyfer rhaglenni (fel y disgrifir uchod) ac ar gyfer y cyfnod pontio etholiadol yn cael eu cyfrif o fewn y cyllidebau unigol hynny sydd wedi'u neilltuo.

Mae swm wedi'i glustnodi o £456,000 wedi'i gynnwys yn y Gyllideb Ddrafft i ddarparu cyllid ar gyfer ad-daliad posibl o'r addasiad y cytunwyd arno i fandiau cyflog is staff y Comisiwn er mwyn setlo trafodaethau cyflog 2024-25 a cheisio setlo'r cytundeb cyflog nesaf. Ceisiwyd cyllid drwy'r cais cyllideb atodol gyntaf 2024-25 a gafodd ei ohirio oherwydd etholiad cyffredinol y DU. Gan nad yw'r Comisiwn yn gallu ariannu hyn o arbedion yn ystod y flwyddyn heb effaith sylweddol ar wasanaethau i'r Aelodau, mae wedi'i gynnwys ar sail defnydd neu ddychwelyd pe na bai'r Gyllideb Atodol yn parhau. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i setlo a chwblhau trafodaethau ar y cytundeb cyflog sydd i fod i gychwyn o 2025-26 ymlaen. Craffodd y Pwyllgor Cyllid ar y cais hwn ym mis Mai 2024.

Mae Strategaeth Pobl Comisiwn y Senedd yn ganolog i gyflawni ein nodau a'n hamcanion strategol, gan sicrhau bod gennym weithlu ystwyth sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau cywir i ddarparu gwasanaethau eithriadol i Fusnes ac Aelodau o’r Senedd. Ategir y strategaeth gan ein gwerthoedd sefydliadol, sef parch, angerdd, balchder a chydweithio fel ‘Un Tîm’.

Mae’r Cynllun Gweithlu (o fewn y Fframwaith Adnoddau Tymor Canol) yn ceisio rheoli ac addasu ein cyflenwad staffio yn y tymor canolig i'r tymor hwy i gyd-fynd ag adnoddau a sgiliau i'r meysydd sydd eu hangen. Bydd hyn yn gofyn am ymagwedd soffistigedig ac aeddfed at fapio sgiliau ac ystwythder wrth recriwtio a lleoli staff. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol wrth i ni symud i Senedd fwy ac esblygu ein gofynion staff ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg ac yn benodol, defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ategu ein hadnoddau.

# 5. Cyllidebau nad ydynt yn rhai staff

Mae'r mwyafrif helaeth o gyllidebau nad ydynt yn gysylltiedig â staff o fewn y Comisiwn yn gontractol, gan gynnwys rhent, ardrethi, rheoli cyfleusterau a chostau sy'n gysylltiedig â TGCh.

Mae codiadau cytundebol sy'n gysylltiedig â CPI ac RPI wedi sbarduno cynnydd yn y llinellau cyllideb hyn nad yw'r Comisiwn yn gallu eu rheoli na'u rheoli y tu allan i bwyntiau trafod contractau, h.y. pan fydd contractau'n dod i ben ac y gellir eu haildendro. Mae arbedion wedi'u gwneud lle bo'n bosibl, ond mae'r cwmpas i wneud hynny'n gyfyngedig.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio cylchoedd contract i drafod y telerau cytundebol gorau posibl i'r Senedd, mewn termau ariannol ac anariannol i ddarparu'r gwerth gorau posibl am arian i'r pwrs cyhoeddus. Mae'r gyllideb wedi'i gosod ar sail y dybiaeth y cytunwyd arni o ddod â gwasanaethau'n fewnol o ganol y Seithfed Senedd ymlaen. Bydd unrhyw un o'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu rhoi ar gontract ar hyn o bryd ac sydd i'w haildendro yn cael eu tendro ar sail darparu hyblygrwydd tuag at y nod hwnnw.

Twf mewn cyllidebau nad ydynt yn staff yw 13.70%, gan symud o £11,683 yn 2024-25 i £13,283 yn 2025-26. Mae hyn yn cynnwys costau ar gyfer adnoddau allanol i ddechrau gweithredu'r argymhellion o'r adolygiadau thematig a gynhaliwyd gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiadau o wasanaethau Staff Cymorth Aelodau. Mae'r newid hwn yn cynnwys y cynnydd yn y Gronfa Prosiectau yr ymdrinnir ag ef ar dudalen 21 ac sy'n cyfrif am 62% o'r cynnydd hwn.

# 6. Diwygio'r Senedd

Cafodd Bil Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r Senedd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2024. Bydd y diwygiadau yn golygu cynyddu maint y Senedd o 60 Aelod i 96. Felly mae angen i'r Comisiwn ailstrwythuro ei gefnogaeth i Senedd fwy o faint mewn ffordd nad yw'n ehangu i'r un gyfran â'r cynnydd canrannol yn nifer yr Aelodau.

Bydd angen hefyd addasu ystad Bae Caerdydd i ddarparu ar gyfer yr Aelodau newydd a'u staff Cymorth. Mae gwaith wedi dechrau yn 2024-25 i ddarparu swyddfeydd ar gyfer Aelodau ychwanegol yn Nhŷ Hywel a fydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2025-26, ynghyd ag ehangu'r Siambr bresennol.

Efallai na fydd penderfyniadau ar drefn Busnes y Senedd yn y Seithfed Senedd ac, o ganlyniad y cymorth y bydd yn ofynnol i'r Comisiwn ei ddarparu, yn hysbys tan ddechrau'r Seithfed Senedd. Wrth gydnabod yr ansicrwydd hwn, rhaid i'r Comisiwn baratoi i ymateb yn hyblyg i anghenion y Seithfed Senedd a'r ddarpariaeth yn y gyllideb hon ar gyfer y gwaith paratoi hwnnw.

Ar y sail hon, defnyddiwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) i ddechrau fel sail ar gyfer paratoi amcangyfrifon cyllideb gan mai'r rhain oedd yr amcangyfrifon gorau bryd hynny. Ers hynny, mae'r amcangyfrifon cost hyn wedi'u diweddaru wrth i'r prosiectau symud trwy gynllunio, ymgysylltu, caffael, dylunio a gweithredu. Mae rhagdybiaethau cychwynnol wedi cael eu disodli gan wybodaeth hysbys o ran dylunio gofod ar gyfer Tŷ Hywel i alluogi holl ddefnyddwyr yr adeilad i ffitio i mewn ac addasu cyllidebau staff i gyd-fynd â'r dyddiadau cychwyn gofynnol ar gyfer y rolau. Mae elfen o'r gyllideb nad yw'n ymwneud â staff yn seiliedig ar yr amcangyfrifon diweddaraf gan ein partneriaid cyflawni sy'n caniatáu darpariaeth wrth gefn ar gyfer y pethau anhysbys parhaus ar adeg cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft.

Bydd angen recriwtio i nifer o swyddi yn ystod 2025-26 naill ai i gefnogi ffrydiau gwaith paratoi neu i roi digon o amser ar gyfer hyfforddiant cyn yr etholiad ym mis Mai 2026. Nifer y swyddi ychwanegol sy'n cael eu creu yn 2025-26 yw 47.9 staff cyfwerth ag amser llawn ar gost o £1.776 miliwn wedi'i ostwng o amcangyfrif yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o 59.9 staff cyfwerth ag amser llawn ar gost amcangyfrifedig o £2.106 miliwn. Mae cyfanswm cyllideb staff Diwygio'r Senedd hefyd yn cynnwys swyddi sydd eisoes wedi'u cymeradwyo ac sydd eisoes ar waith i baratoi, cefnogi a chyflawni'r trawsnewid.

Mae'r gyllideb wedi'i chlustnodi fel y bydd unrhyw arian yn dychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru os bydd y tybiaethau yn esblygu ymhellach ac nad oes angen elfen o'r cyllid. Mae hyn yn darparu dull tryloyw ac yn gwahanu cyllid ar gyfer Diwygio'r Senedd o weithgareddau dydd i ddydd y Comisiwn.

Cyfrifwyd amcangyfrifon cost yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystod gwanwyn 2022 gan ddefnyddio methodoleg gyllidebol Llywodraeth Cymru, nad yw'n ystyried newidynnau fel dyfarniadau cyflog a chwyddiant yn y dyfodol. Nododd yn fras y gwariant ychwanegol disgwyliedig o ganlyniad i Fil Diwygio'r Senedd arfaethedig dros gyfnod o 10 mlynedd. Er mwyn cymharu tebyg i debyg, ac felly gyda'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i addasu ar gyfer dyfarniadau cyflog a chwyddiant ar gyfartaledd yn seiliedig ar gyflwyno'r senario "Mwy", mae'r costau alldro disgwyliedig i raddau helaeth yn unol â'r amcangyfrif cyffredinol Asesiad Effaith Rheoleiddiol gwreiddiol.

Mae'r costau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2025-26 wedi'u nodi yn y tabl isod. Mae'r costau cyfalaf yn ymwneud â chwblhau addasiadau yn Nhŷ Hywel ar gyfer swyddfeydd Aelodau newydd a'r addasiadau angenrheidiol i'r Siambr ar gyfer y Senedd ehangach. Mae cyllideb y Siambr hefyd yn cynnwys swm ar gyfer costau adnewyddu ar gyfer cynnal a chadw cylch bywyd sy'n dod tuag at ddiwedd oes a fydd yn cael ei ddisodli yn ystod y cyfnod hwn oherwydd maint y gwaith dan sylw yn hytrach nag amharu ar Fusnes y Senedd dros y ddwy i dair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys gosod gwifrau trydan newydd ynghyd ag adnewyddu systemau gwresogi a ffan.

| Disgrifiad | Cyllideb 2025-26 £ miliwn | RIA Diwygio'r Senedd wedi'i Addasu* £'miliwn | RIA Diwygio'r Senedd £ miliwn |
|---|---|---|---|
| **Swyddi a gymeradwywyd cyn 2025-26** | £0.387 | £1.744 | £1.570 |
| **Staff ychwanegol (47.9 CALl)** | £1.776 | £2.339 | £2.106 |
| **Costau nad ydynt yn ymwneud â staff** | £0.445 | £0.623 | £0.549 |
| **Costau cyfalaf** | £3.874 | £2.027 | £1.786 |
| **Cyfanswm** | £6.482 | £6.733 | £6.011 |

*Costau staff wedi'u haddasu gan ddyfarniadau cyflog ar gyfer 2023/24 (2.4%); 2024-25 (3%) 2025-26 (5%)
Costau nad ydynt yn ymwneud â Staff wedi'u haddasu yn ôl Chwyddiant o 2023/24 (7%); 2024-25 (3%) 2025-26 (3%)

# 7. Ffyrdd o Weithio

Sefydlwyd y Rhaglen Ffyrdd o Weithio gan y Comisiwn ym mis Mawrth 2022 ac mae'n un strwythur rhaglen gydlynol lle mae'r Comisiwn yn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n codi o'i amgylchedd newidiol ei hun, ac anghenion esblygol y Senedd a'i Aelodau.

Mae'r rhaglen, sydd bellach yn ei hail flwyddyn, yn cynnwys dwy ffrwd waith, sy'n adrodd i Fwrdd Rhaglen canolog:

- Ffrwd Waith Bae Caerdydd: Byddwn yn darparu ystad o ansawdd uchel, hyblyg a chynhwysol ym Mae Caerdydd sy'n rhoi gwerth am arian cyhoeddus ac sy'n diwallu anghenion y Senedd, ei Haelodau, eu staff, Llywodraeth Cymru, dinasyddion, y cyfryngau, a Chomisiwn y Senedd yn y tymor byr, canolig a hir; a
- Ffrwd Waith Gweithio Rhanbarthol: Byddwn yn sicrhau sylfaen ranbarthol effeithiol ar gyfer gwasanaethau allgymorth, gwybodaeth gyhoeddus, addysg a chyfieithu yng Ngogledd Cymru; ac ymchwilio i gyfleoedd posibl ar gyfer datblygu ôl troed rhanbarthol Comisiwn y Senedd dros amser a chyflwyno cynigion ar gyfer gwneud hynny.

Mae ffrwd waith Bae Caerdydd wedi symud yn gyflym yn ystod diwedd 2023-24 a dechrau 2024-25, gan sefydlu timau cyflawni prosiectau, ymgymryd â gweithgareddau gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynllunio, dylunio, caffael i ddarparu:

- y prosiectau ystadau angenrheidiol i baratoi ar gyfer Senedd fwy, gan gynnwys ehangu Siambr y Senedd, adleoli gweithleoedd staff y Comisiwn i gynyddu capasiti Tŷ Hywel i ddarparu ar gyfer 36 yn rhagor o Aelodau a'u staff) erbyn mis Chwefror 2026. Er y bydd rhaglen Ffyrdd o Weithio yn rheoli'r gwaith o gyflawni'r prosiectau hyn sy'n gysylltiedig â Diwygio'r Senedd, at ddibenion tryloywder mae'r cyllid ar eu cyfer o fewn clustnodi Diwygio'r Senedd a drafodwyd uchod.
- Prosiect Bae Caerdydd 2032. Bydd y prosiect hwn yn darparu llety diogel tymor hir i'r Comisiwn ar ôl diwedd 2032 les Tŷ Hywel (sydd ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer swyddfeydd a chyfleusterau'r Aelod, staff y Comisiwn a Llywodraeth Cymru). Megis dechrau y mae'r prosiect hwn ond mae ganddo amserlen dynn i sicrhau y bydd y llety'n barod erbyn 2032. Roedd cyllideb 2024-25 yn seiliedig ar dybiaeth o gaffael un

ffynhonnell. Ers hynny, mae'r prosiect wedi bod drwy sawl cam o'i ddatblygiad a chafwyd cyngor cyfreithiol yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn wedi cadarnhau bod angen proses gaffael gystadleuol lawn a fydd yn cynnwys gwerthuso ystod gadarn o opsiynau fel rhan o broses achos busnes tri cham lawn (yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF / Llywodraeth Cymru). Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Bae 32 yn cynnwys arian i gefnogi'r broses Achos Busnes, cynghorwyr proffesiynol a chymorth cyfreithiol a chaffael. Drwy greu ystod eang o opsiynau, cynhelir proses gaffael fwy cystadleuol a fydd yn sicrhau gwerth am arian amlwg i Bwrs Cyhoeddus Cymru.

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer y rhaglen waith hon ar gyfer 2025-26, fel yn achos rhaglen Diwygio'r Senedd, wedi'i chlustnodi fel bod costau ar wahân ac yn dryloyw. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd nifer y penderfyniadau sydd i'w gwneud am yr Ystad yn ystod 2025-26. Bydd neilltuo arian yn sicrhau y bydd cyllid nas defnyddiwyd yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru pe bai'r Achos Busnes dros newid yn cefnogi opsiwn sy'n gofyn am lefel is o adnoddau nag y gofynnwyd amdano. Mae dadansoddiad o'r gofyniad cyllidebol posibl ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf i'w weld isod:

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | Cyllideb hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn | £ miliwn |
| **Prosiect y Bae 2032*** | £1.250 | £2.055 | £1.882 | £1.600 | £6.787 |
| **Prosiect adolygu'r Pierhead** | £0.130 | £0.000 | £0.000 | £0.000 | £0.130 |
| **Costau cyfreithiol** | £0.050 | £0.075 | £0.100 | £0.050 | £0.275 |
| **Cyflawni strategol Ffyrdd o Weithio (cyllideb wedi'i symud i Ddiwygio'r Senedd)** | £0.100 | - | - | - | £0.100 |
| **Rheoli'r Rhaglen** | £0.101 | £0.266 | £0.274 | £0.283 | £0.924 |
| **Cyfansymiau** | **£1.631** | **£2.396** | **£2.256** | **£1.933** | **£8.216** |

# 8. Cronfa Prosiectau

Mae'r Comisiwn yn cynnal Cronfa Prosiectau er mwyn ariannu gwariant y tu hwnt i'r cyllidebau gwasanaeth dirprwyedig gan gynnwys adnewyddu cylch bywyd ar gyfer seilwaith TGCh, darlledu ac ystadau.

Rheolir y Gronfa Prosiectau gan Grŵp Rheoli Prosiectau (PMG). Dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Ariannol gyda chefnogaeth gan banel o bob rhan o'r Comisiwn, mae'r Grŵp yn gyfrifol am sicrhau bod portffolio'r prosiect ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Comisiwn, yn cael adnoddau priodol, yn rhoi gwerth am arian a bod prosiectau'n cael eu cyflwyno i amserlenni a manyleb y cytunwyd arnynt. Bydd y dull hwn yn darparu:

- gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- llai o risg; ac
- yn cyflawni ein hamcan strategol Cynaliadwyedd.

Mae’r Grŵp Rheoli Prosiect yn argymell i’r Bwrdd Gweithredol pa brosiectau y dylid eu blaenoriaethu, yn monitro i ba raddau y cânt eu cyflawni, ac yn defnyddio dull ystwyth o ymateb i newidiadau a phroblemau yn ystod y flwyddyn.

Mae’r strategaeth ar gyfer rheoli cyllid wedi’i nodi mewn Strategaeth Bortffolio sy’n nodi:

- gweledigaeth a nodau y cytunwyd arnynt ar gyfer portffolio’r prosiect;
- yr ysgogiadau gwerth a ddefnyddir i lywio blaenoriaethu'r portffolio; a’r
- prif risgiau, amlen adnoddau ac amseriadau.

Bydd y strategaeth hon yn hwyluso'r dyraniad a, lle bo'n berthnasol, ail-bwrpasu neu ail-flaenoriaethu cyllid i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau i sicrhau gwerth am arian.

Mae proses y Fframwaith Adnoddau wedi nodi cyfnod o bwysau sylweddol a pharhaus ar y Gronfa Prosiectau yn 2025-26 i 2027-28 oherwydd nifer yr eitemau a adnewyddir yn sgil cylch bywyd gyda goblygiadau cost sylweddol yn dod yn sgil hynny, yn ogystal â'r cylch gwaith mwy arferol. Mae'r Comisiwn yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw i ymestyn bywyd defnyddiol gweithfeydd a seilwaith mawr lle bo hynny'n bosibl, a bydd yn cynnal astudiaeth ddichonoldeb y flwyddyn

o offer a chyfarpar sy'n dod tuag at ddiwedd ei oes weithredol i asesu a ellir ymestyn hyn. Er gwaethaf hyn, oherwydd oedran yr adeiladau ac amseriad y buddsoddiadau cychwynnol, nid yw'r Gronfa Prosiectau bresennol yn ddigonol i gynnal y rhaglen amnewid angenrheidiol a bydd angen cynyddu £1.0 miliwn i sicrhau y gellir cynnal a chadw cylch bywyd hanfodol a thrwy hynny atal methiant trychinebus. Y prosiectau allweddol a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer eu blaenoriaethu yn ystod 2025-26 yw:

- System Rheoli Adeiladu sy'n rheoli cyfleusterau adeilad y Senedd;
- Uwchraddio lifftiau ar gyfer adeilad y Senedd;
- Unedau oeri newydd ar gyfer rhai sydd ar ddiwedd eu hoes;
- System Trin Aer newydd ar gyfer rhai sydd ar ddiwedd eu hoes
- Arfwisg Corff yr Heddlu;
- Gosod system Senedd TV newydd ar ddiwedd ei oes
- Diweddaru seilwaith TGCh; ynghyd â
- Chwblhau prosiectau amlflwyddyn a ddechreuwyd yn 2024-25.

Mae'r rhain yn ychwanegol at amserlen o eitemau â blaenoriaeth sy'n ymwneud â'r flaenraglen waith cynnal a chadw / atgyweirio i seilwaith TGCh a'r ystad a fydd yn cael ei hasesu yn gynnar yn 2025-26 ar gyfer cyllid.

# 9. Cynaliadwyedd

Mae'r cynlluniau ariannol a darparu gwasanaethau yn y tymor byr, canolig a'r tymor hwy i gyd o fewn cyd-destun bod yn sefydliad gwirioneddol gynaliadwy.

Comisiwn y Senedd oedd un o'r sefydliadau cyhoeddus cyntaf i lunio strategaeth yn manylu ar ymateb arfaethedig i'r Argyfwng Hinsawdd a chynllun i ddod yn garbon niwtral. 2025-26 fydd pwynt canol y Strategaeth honno ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda gyda'r mesurau gwella a amlygwyd ynddi.

Mae'r rhaglen Ffyrdd o Weithio – sy'n dwyn ynghyd strategaethau ystad, pobl a chynaliadwyedd y Comisiwn a'i gynllun 'dyfodol ystwyth' – wedi gweld y Comisiwn yn gosod ardaloedd gweithio hyblyg ar draws yr ystad a mwy o gyfleusterau cyfarfod hybrid. Mae manteisio ar yr arbedion effeithlonrwydd ynni hyn hefyd wedi creu buddion lles i staff.

Mae'r gwaith o gyflwyno goleuadau LED bron wedi'i gwblhau erbyn hyn. Ynghyd â chyflwyno nifer o arbedion effeithlonrwydd sy'n gysylltiedig â'r system rheoli adeiladau (BMS), ac ymdrechion i leihau'r defnydd o wresogi a chyflyru aer, mae'r galw am ynni wedi lleihau. Er bod costau nwy a thrydan wedi codi'n sylweddol i'r Comisiwn yn 2023 a 2024, mae gostyngiad graddol yn digwydd. Fodd bynnag, mae prisiau'n parhau'n uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol ac mae prisiau'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr.

Mae'r Comisiwn yn credu mewn tryloywder yn ogystal â gosod y safonau uchaf iddo'i hun. Am y rheswm hwn, cynhelir system rheoli amgylchedd. Caiff ei archwilio'n allanol i weld a yw'n cydymffurfio ag ISO14001. Mae'r safon reoli hon yn mynnu bod amrywiaeth o gamau yn cael eu dangos mewn archwiliad allanol, gan gynnwys rheolaethau ar effeithiau amgylcheddol allweddol, cydymffurfio â deddfwriaeth, a rhaglen o archwiliadau mewnol.

Mae'r Comisiwn yn parhau i weithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn ogystal â seneddau eraill y Deyrnas Unedig, er mwyn rhannu arfer gorau wrth wella'r amgylchedd yn barhaus.

# 10. Ymgysylltu

Un o nodau Strategol y Comisiwn yw cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn. Nod ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yw cyflawni hynny, gan ganolbwyntio ar gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn enwedig y rhai sy'n teimlo nad yw'r Senedd wedi clywed eu lleisiau'n draddodiadol, gyda'r amcanion o godi ymwybyddiaeth, cynyddu dealltwriaeth a chynyddu cyfranogiad.

Rydym wedi gwneud cynnydd da. Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, nid oedd 83% o'r bobl yr oeddem wedi ymgysylltu â hwy wedi ymgysylltu â hwy wedi ymgysylltu â'r Senedd o'r blaen. Nid oedd 44% o'r sefydliadau a roddodd adborth ychwaith wedi ymgysylltu â ni o'r blaen.

Mae ein Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn parhau i gasglu profiadau amhrisiadwy gan bobl ledled Cymru, y mae eu straeon yn llywio gwaith pwyllgorau. Mae straeon hefyd wrth galon ein gwaith yn y cyfryngau i godi ymwybyddiaeth o'r Senedd. Cyflawnwyd cynnydd o 16% yn y sylw a roddir i waith pwyllgor yn y newyddion ers 2022-23.

Mae nifer yr ymwelwyr â'r Senedd a'r Pierhead yn ôl i lefelau cyn y pandemig. Rydym hefyd wedi datblygu ein gwaith ymgysylltu â'r gymuned leol drwy gydweithio â Charnifal Butetown ac ymhelaethu ar eu straeon yn ein Harddangosfa yn y Pierhead.

Mae ein huchelgais i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac iau ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn gwneud cynnydd, gyda newid i ganolbwyntio ar Instagram, lle pobl ifanc 18-24 oed yw ein hail gynulleidfa fwyaf, ar ôl pobl 25-34 oed.

Mae'r cyflawniadau hyn wedi cael eu cefnogi gan fuddsoddiad mewn mwy o fewnwelediadau cynulleidfa, trwy greu pôls, rheoli cyfryngau cymdeithasol ac offer gwrando, ac offer monitro'r cyfryngau. Rydym hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar werthuso, gyda gwell gwaith casglu adborth gan y gynulleidfa a gwerthuso cadarn o bob gweithgaredd ymgysylltu sy'n llywio cynlluniau'r dyfodol, fel y gallwn barhau i wella.

Eleni yw blwyddyn olaf ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Bydd ein ffocws yn symud i baratoi cynulleidfaoedd ar gyfer y newidiadau i'r Senedd a'r etholiad. Rydym eisoes yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i archwilio ffyrdd o gydweithio i wneud yn siŵr ein bod yn cael yr effaith fwyaf, osgoi dyblygu a darparu gwerth am arian.

Mae angen i'r Comisiwn sicrhau bod gwybodaeth glir a dibynadwy ar gael i bobl sy'n chwilio amdani, tra hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cyrraedd cymunedau nad ydynt yn draddodiadol yn ymgysylltu â ni. Byddwn yn gwneud hyn drwy adnewyddu cynnwys ar draws ein sianeli a datblygu rhaglen ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar ein cynulleidfaoedd sydd wedi ymddieithrio.

Er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn y sefyllfa orau i barhau â'n cynnydd da yn y Seithfed Senedd, bydd angen buddsoddiad parhaus arnom mewn dau brosiect mawr: Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid ac Offer Ymgysylltu Ar-lein.

## Senedd Ieuenctid Cymru

Bydd Senedd Ieuenctid Cymru yn ethol Aelodau ar gyfer ei thrydydd tymor ym mis Tachwedd 2024.

Bydd 40 o bobl ifanc rhwng 11 a 17 oed yn cael eu hethol drwy etholiad democrataidd cenedlaethol ar-lein i gynrychioli'r 40 etholaeth etholiadol bresennol yng Nghymru. Bydd 20 o bobl ifanc eraill yn cael eu dewis drwy sefydliadau partner. Bydd hyn yn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol o bobl ifanc yn y senedd ieuenctid.

Bydd y 60 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru yn ceisio amlygu a hyrwyddo'r materion sydd bwysicaf i bobl ifanc ledled Cymru drwy gasglu barn, ysgrifennu adroddiadau a gwneud argymhellion. Bydd y rhain yn cael eu trafod yn y Siambr gyda phenderfynwyr allweddol yng Nghymru. Byddant yn adeiladu ar y gwaith a wnaed gan bobl ifanc yn ystod dau dymor blaenorol y Senedd Ieuenctid ac yn parhau i annog a dylanwadu ar drafodaethau ar faterion allweddol.

# 11. Llywodraethiant a Rheolaeth Ariannol

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd yn cefnogi'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yng nghyswllt eu cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant corfforaethol.

Fel rhan o'i rôl, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn dangos diddordeb mawr yn yr amgylchedd rheoli ariannol mewnol ac yn ei oruchwylio. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau cyfrifyddu a'r sefyllfa gyllidebol ac mae hefyd yn ymddiddori'n frwd wrth archwilio'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Mae aelodau o'r Pwyllgor hefyd wedi goruchwylio a herio'r fframwaith sicrwydd a'r datganiad llywodraethu.

Mae'r timau archwilio allanol a mewnol yn ffynonellau sicrwydd pwysig i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Swyddog Cyfrifyddu. Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y Comisiwn a chaiff gymorth yn ei waith gan Archwilio Cymru. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, cyhoeddwyd barn ddiamod mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Yn 2019, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid y Senedd Ddatganiad o Egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i'w hystyried wrth lunio eu hamcangyfrifon cyllideb blynyddol. Mae'r Comisiwn wedi cofio'r egwyddorion hyn wrth lunio ei amcangyfrif cyllideb ar gyfer 2025-26. Mae'r amcangyfrif yn dryloyw a rhoddir tystiolaeth o'r angen am yr adnoddau y gofynnir amdanynt a'r budd ohonynt yn naratif y ddogfen hon.

Mae gan y Bwrdd Gweithredol gyfrifoldeb strategol am sicrhau y caiff adnoddau'r Comisiwn eu defnyddio'n effeithiol, mae'n rhoi her i arweinwyr gwasanaeth ymdrechu i wella'n barhaus ac yn arwain ymdrechion i sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am gymeradwyo cynlluniau buddsoddi blynyddol y Comisiwn ac am flaenoriaethu buddsoddiad yn y ffordd orau. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod y gwaith cynllunio capasiti adnoddau yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ac mae'n darparu gwaith llywodraethu a sicrwydd ar gyfer prosiectau newid o bwys.

# 12. Y Gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau

Y Bwrdd Taliadau annibynnol yw'r corff sy'n pennu cyflogau a thaliadau'r Aelodau a'u staff cymorth, a'r system cymorth ariannol sydd ei hangen i'r Aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae Penderfyniad y Bwrdd yn pennu'r cyllid sydd ar gael i dalu am y treuliau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a chyflawni eu dyletswyddau seneddol, er enghraifft:

- cynnal swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a chostau yn ymwneud â staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i'r Aelodau y mae eu cartref yn bellter sylweddol i ffwrdd o'r Senedd (mae meini prawf cymhwysedd yn gymwys);
- chymorth i Grwpiau'r Pleidiau ac ymchwil polisi.

Mae'r Penderfyniad yn pennu cyflog sylfaenol yr Aelodau a chyflogau deiliaid swyddi ychwanegol. Mae'r Penderfyniad hefyd yn pennu'r dull ar gyfer codiadau i'r cyflogau hyn; yn 2025-26 disgwylir y bydd cyflogau'r Aelodau yn cynyddu yn unol â'r enillion cyfartalog yng Nghymru fel y'u mesurir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ("ASHE"), wedi'i gyfyngu ar 3 y cant. Mae'r cyflog sylfaenol ar gyfer Aelodau ar ddechrau 2025-26 wedi'i gyllidebu ar £74,219 sy'n rhagdybio cynnydd o 3% ar lefel y cyflog presennol o £72,056 (5.7% oedd y ffigwr ASHE ar gyfer Hydref 2023, y disgwyliad yw y bydd hynny hefyd yn fwy na'r cap o 3% ar gyfer mis Mawrth 2023 i fis Mawrth 2024).

Mae'r Bwrdd yn adolygu elfennau o'i Benderfyniad yn flynyddol neu'n gyfnodol i sicrhau eu bod yn parhau'n briodol.  Bydd y Bwrdd yn cynnal ei adolygiad blynyddol o'r Penderfyniad yn ystod hydref 2024 - gwanwyn 2025. Nid yw'n bosibl rhagweld penderfyniadau y bydd y Bwrdd yn dewis eu gwneud yn y dyfodol.  At ddibenion cyllidebu, gwnaed rhai rhagdybiaethau ar gyfer costau Penderfyniad 25-26 gan gynnwys cyfradd chwyddiant.

Gall yr Aelodau gyflogi staff i'w cefnogi ym mhob agwedd ar eu rôl. Mae gan grwpiau gwleidyddol hawl hefyd i gyllid ar gyfer staff y grŵp. Y gyllideb ar gyfer staff cymorth ar gyfer 2025-26 yw £11.6 miliwn, sy'n cynnwys codiad cyflog o 6 y cant. Cafodd y cap ar gyflogau staff cymorth ei ddileu ar gyfer blwyddyn ariannol

2024-25. O ystyried y ffigur ASHE blaenorol o 5.7%, bydd y gyllideb yn darparu cwmpas ar gyfer ffigur tebyg ym mis Hydref 2024.

Mae'r Penderfyniad yn nodi'r ystod o gostau a lwfansau y gall Aelodau eu hawlio i redeg eu swyddfeydd a chyflawni eu dyletswyddau.  Y gyllideb ar gyfer costau swyddfa yw £2.673 miliwn.  At ddibenion cyllidebu, y ffactor chwyddiant a ddefnyddir ar gyfer 2025-26 yw 3% ar gyfer lwfansau (lle bo'n berthnasol) gyda chynnydd chwyddiant o 2% wedi'i gymhwyso i'r ddwy flynedd ganlynol. Mae hyn yn adlewyrchu disgwyliad y bydd yn dychwelyd i gyfradd darged Banc Lloegr ar gyfer blynyddoedd ariannol ar ôl 2025-26.

Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer tanwariant disgwyliedig o £0.5 miliwn yn erbyn cyfanswm y gyllideb ar gyfer y Penderfyniad. Mae hon yn dybiaeth ddarbodus yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol. Mae'n debygol y bydd swm o dros £0.5 miliwn yn cael ei ryddhau o bob rhan o'r gyllideb staff cymorth a'r gyllideb costau swyddfa.  Mae'r dull hwn yn helpu i reoli'r gyllideb, gan ganiatáu lefel gymedrol o arian wrth gefn, os bydd y Bwrdd yn penderfynu gweithredu newidiadau annisgwyl.  Pe bai cyfanswm y gyllideb yn annigonol, efallai y bydd angen Cyllideb Atodol.

Dangosir y gyllideb i ariannu'r Penderfyniad ar gyfer 2025-26 a'r ddwy flynedd ddilynol yn Nhabl 9.

Mae'r Comisiwn hefyd yn disgwyl bod mewn sefyllfa i wneud taliadau 'gwneud iawn' yn ystod 2025-26 i'r Aelodau hynny yr effeithiwyd arnynt gan ddyfarniad McCloud. Mae Trysorlys EF yn cymryd y camau angenrheidiol i alluogi hyn i ddigwydd, ymhlith pethau eraill, drwy wneud newidiadau i ddeddfwriaeth. Bydd y Cynllun Pensiwn Aelodau yn gyfrifol am unrhyw daliadau pensiwn ôl-ddyddiedig. Y Comisiwn fydd yn gyfrifol am unrhyw iawndal. Disgwylir i gyfanswm y gost uchaf fod oddeutu £100k. Nid oes cyllideb ychwanegol wedi'i darparu gan y disgwylir y bydd digon o danwariant o fewn y gyllideb gyffredinol i dalu'r gost hon.

Darperir cymorth uniongyrchol i'r Bwrdd gan y Comisiwn fel sy'n ofynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010. Ers 2022-23 mae cost y cymorth hwn wedi'i glustnodi yng nghyfanswm cyllideb Comisiwn y Senedd i wella tryloywder ac mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae'r gyllideb yn darparu ar gyfer ysgrifenyddiaeth heb ei newid. Yn ogystal, telir ffioedd a threuliau teithio i aelodau'r Bwrdd. Mae gwariant arall yn cynnwys eitemau megis comisiynu arbenigedd allanol. Rhoddir manylion yn Nhabl 11.

# 13. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20.13 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb Flynyddol sy'n ofynnol yn ôl Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad yn cynnwys gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau ac arian ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2026.

Bydd Cynnig y Gyllideb yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys yr incwm uchaf (neu'r adnoddau cronnus) y gellir eu cadw i'w defnyddio ar y gwasanaethau ac at y dibenion hynny yn lle eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru. Bydd hefyd yn nodi swm yr arian parod y bydd ei angen o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu'r symiau net disgwyliedig sy'n ddyledus i'w talu gan y Comisiwn.

Nodir y gyllideb ar gyfer y Senedd yn 2025-26, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn yn Nhabl 1.

***Tabl 1: Cyllideb 2025-26 ar gyfer y Senedd yn unol â'r gofynion***

| **Gofynion y Senedd** | **2025-26 £000** |
|---|---|
| Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ('y Comisiwn') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau Annibynnol; taliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.<br>Adnoddau ar wahân i adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn yr Aelodau o'r Senedd | £84,301<br>(Tabl 2) |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn, o waredu asedau sefydlog, ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog, incwm rhent, rhoddion, grantiau, sieciau, ad-daliadau ac incwm o werthiannau masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd neu eraill i'w defnyddio ar gostau gweinyddol y Senedd | £61<br>(Tabl 8) |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion namyn derbyniadau disgwyliedig a TAW y gellir ei hadennill. | £80,031<br>(Tabl 3) |

# Atodiad 1: Trosolwg o'r Gyllideb

***Tabl 2: Trosolwg o'r Gyllideb***

| **Pennawd y Gyllideb** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant sy'n gysylltiedig â'r Comisiwn** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cyflogau staff a chostau cysylltiedig (Tabl 4)** | £29,663 | £32,351 | £33,033 | £34,281 |
| **Adeiladau a chyfleusterau (Tabl 5)** | £5,991 | £6,229 | £6,372 | £6,520 |
| **Costau TGCh (Tabl 6)** | £2,731 | £2,944 | £3,009 | £3,047 |
| **Costau eraill (Tabl 7)** | £2,061 | £2,172 | £2,108 | £2,095 |
| **Cyfanswm Gwariant Refeniw** | **£40,446** | **£43,696** | **£44,522** | **£45,943** |
| **Cyfanswm Incwm (Tabl 8)** | (£100) | (£61) | (£61) | (£61) |
| **Gwariant Cyfalaf** | £500 | £500 | £500 | £500 |
| **Cronfa Prosiectau** | £1,000 | £2,000 | £1,000 | £1,000 |
| **Arbedion i'w nodi** | (£315) | £0 | £0 | £0 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau Gweithredol** | **£41,531** | **£46,135** | **£45,961** | **£47,382** |
| **Taliadau Llog** | £610 | £600 | £590 | £580 |
| **Taliadau Dibrisiant** | £4,750 | £5,000 | £5,000 | £5,000 |
| **Cyllidebau prosiect wedi'u clustnodi** | | | | |
| **Costau Diwygio'r Senedd** | £2,065 | £6,482 | £6,830 | £5,399 |
| **Ffyrdd o Weithio** | **£1,531** | £2,396 | £2,256 | £1,933 |
| **2024-25 Darpariaeth ôl-daliadau** | | £456 | | |
| **Cyfanswm Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Comisiwn** | **£50,487** | **£61,069** | **£60,637** | **£60,294** |
| **Gwariant sy'n Gysylltiedig â'r Aelodau** | | | | |
| **Cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig (Tabl 9) (yn unol â Phenderfyniad y Bwrdd Taliadau)** | £19,180 | £20,525 | £21,129 | £21,751 |
| **Cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig sy'n deillio o Ddiwygio'r Senedd** | £0 | £0 | £10,569 | £10,569 |
| **Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau (Tabl 10)** | £101 | £105 | £108 | £110 |

| Pennawd y Gyllideb | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau annibynnol (Tabl 11)** | £627 | £602 | £598 | £614 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad** | £0 | £1,000 | £2,500 | £0 |
| **Costau cyllid pensiwn Aelodau** | £1,800 | £1,000 | £1,000 | £1,000 |
| **Cyfanswm Cyllideb Comisiwn y Senedd** | **£72,195** | **£84,301** | **£96,541** | **£94,338** |

*Yn adlewyrchu lle dyrannwyd £315k o arbedion yn ogystal ag addasiad cyllideb atodol

***Tabl 3: Cysoni'r gofyniad adnoddau newydd â'r gofyniad tynnu arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru***

| Gofyniad arian parod net | 2025-26 £000 |
|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | £20,525 |
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | £105 |
| Costau Cymorth y Bwrdd Taliadau Annibynnol | £602 |
| Costau refeniw Diwygio'r Senedd | £4,674 |
| Costau refeniw Ffyrdd o Weithio | £2,130 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | £52,501 |
| 2024-25 Darpariaeth ôl-daliadau | £456 |
| Gofyniad cyfalaf net (gan gynnwys Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio) | £2,308 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | £1,000 |
| **Is-gyfanswm** | £84,301 |
| **Addasiadau** | |
| Dibrisiant | (£5,000) |
| Taliadau llog / addasiadau cyfalaf yn ymwneud ag IFRS 16 | (£600) |
| Taliadau rhent yn ymwneud ag IFRS 16 | £2,330 |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (£1000) |
| **Is-gyfanswm** | |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | **£80,031** |

# Atodiad 2: Manylion y Gyllideb

***Tabl 4: Dadansoddiad o gyflogau staff a chostau cysylltiedig***

| | 2024-25<br>£000 | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff y Comisiwn | £30,663 | £33,351 | £34,033 | £35,281 |
| Amcangyfrif swydd wag | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) | (£1,000) |
| **Cyfanswm** | **£29,663** | **£32,351** | **£33,033** | **£34,281** |

***Tabl 5: Dadansoddiad o Gostau Adeiladau a Chyfleusterau***

| | 2024-25<br>£000 | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Rhent ac ardrethi gan gynnwys maes parcio (wedi'i addasu ar gyfer IFRS 16) | £1,875 | £1,930 | £1,974 | £2,018 |
| Cynnal a chadw a gwaith | £1,090 | £1,110 | £1,110 | £1,110 |
| Diogelwch | £923 | £949 | £985 | £1,022 |
| Cyfleustodau | £980 | £1,039 | £1,070 | £1,102 |
| Glanhau | £575 | £643 | £662 | £682 |
| Arlwyo | £443 | £453 | £467 | £481 |
| Rhentu llungopiwyr | £40 | £40 | £40 | £40 |
| Dodrefn a Gosodiadau | £65 | £65 | £65 | £65 |
| **Cyfanswm** | **£5,991** | **£6,229** | **£6,372** | **£6,520** |

***Tabl 6: Dadansoddiad o gostau TGCh***

| | 2024-25<br>£000 | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau TGCh | £739 | £731 | £710 | £710 |
| Darlledu | £743 | £870 | £870 | £870 |
| Trwyddedu a Chynnal a Chadw | £1,149 | £1,243 | £1,320 | £1,357 |
| Refeniw a Defnyddiau Traul | £100 | £100 | £110 | £110 |
| **Cyfanswm** | **£2,731** | **£2,944** | **£3,009** | **£3,047** |

***Tabl 7: Dadansoddiad o gostau eraill***

| | 2024-25<br>£000 | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Hyfforddi a datblygiad | £344 | £312 | £312 | £312 |
| Gwasanaethau iaith ar gontract allanol | £305 | £305 | £305 | £305 |
| Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth | £305 | £305 | £305 | £305 |
| Costau Adnoddau Dynol eraill | £166 | £172 | £172 | £172 |
| Yswiriant a chostau cyfreithiol | £162 | £162 | £173 | £185 |
| Cyhoeddiadau | £131 | £146 | £146 | £146 |
| Teithio a chynhaliaeth staff | £113 | £108 | £108 | £108 |
| Teithio a chynhaliaeth arall | £95 | £95 | £95 | £95 |
| Archwilio | £95 | £135 | £135 | £135 |
| Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio | £60 | £58 | £58 | £58 |
| Cyngor arbenigol | £46 | £146 | £71 | £46 |
| Ymgysylltu academaidd | £30 | £30 | £30 | £30 |
| Ymgynghori | £45 | £50 | £50 | £50 |
| Lletygarwch | £28 | £24 | £24 | £24 |
| Cyfrifyddu a gwasanaethau ariannol | £32 | £32 | £32 | £32 |
| Gwisgoedd a dillad | £15 | £15 | £15 | £15 |
| Fetio | £22 | £22 | £22 | £22 |
| Eitemau eraill <£20k | £67 | £55 | £55 | £55 |
| **Cyfanswm** | **£2,061** | **£2,172** | **£2,108** | **£2,095** |

***Tabl 8: Dadansoddiad o Incwm***

| | 2024-25<br>£000 | 2025-26<br>£000 | 2026-27<br>£000 | 2027-28<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Gwerthiannau – siop y Senedd | (£20) | (£20) | (£20) | (£20) |
| Adeiladau – incwm rhentu | (£58) | (£19) | (£19) | (£19) |
| Incwm arall | (£22) | (£22) | (£22) | (£22) |
| **Cyfanswm** | **(£100)** | **(£61)** | **(£61)** | **(£61)** |

***Tabl 9: Dadansoddiad o gyflogau'r Aelodau a'r costau cysylltiedig***

| | 2024-25<br><br>£000 | 2025-26<br><br>£000 | 2026-27<br><br>£000 | 2027-28<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau Aelodau o'r Senedd ac argostau | £6,645 | £6,750 | £6,953 | £7,161 |
| Cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau ac argostau | £10,641 | £11,601 | £11,949 | £12,308 |
| Lwfansau a Chostau Swyddfa | £2,394 | £2,674 | £2,727 | £2,782 |
| Tanwariant disgwyliedig | (£500) | (£500) | (£500) | (£500) |
| **Cyfanswm** | **£19,180** | **£20,525** | **£21,129** | **£21,751** |

***Tabl 10: Cyllideb ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Safonau***

| | 2024-25<br><br>£000 | 2025-26<br><br>£000 | 2026-27<br><br>£000 | 2027-28<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £75 | £80 | £82 | £84 |
| Cyngor Cyfreithiol | £26 | £25 | £26 | £26 |
| **Cyfanswm** | **£101** | **£105** | **£108** | **£110** |

***Tabl 11: Cyllideb i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol***

| | 2024-25<br><br>£000 | 2025-26<br><br>£000 | 2026-27<br><br>£000 | 2027-28<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £482 | £504 | £519 | £535 |
| Ffioedd a Threuliau | £47 | £47 | £47 | £47 |
| Costau a threuliau eraill | £98 | £51 | £31 | £31 |
| **Cyfanswm** | **£627** | **£602** | **£598** | **£614** |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales